GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
Shared Services Partnership
Specialist Estates Services

# Hysbysiad Gwasanaethau Ystadau Arbenigol 21/17

## 17 Medi 2021

**I'w weithredu gan y canlynol:**
Cyfarwyddwyr a Rheolwyr Ystadau/Cyfleusterau, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Cyfarwyddwyr Cynllunio a Strategaeth, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG

**Er gwybodaeth yn unig:**
Prif Weithredwyr, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG

Copi i'r canlynol:
Pennaeth Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau, Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

Annwyl Gydweithiwr

## DIRYMU PROTOCOL TAI FFORDDIADWY GIG CYMRU

Noder bod y Cylchlythyr Iechyd Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar (WHC 2021/018 dyddiedig Medi 2021) wedi dirymu WHC (2007) 088 – Darparu Tir y GIG ar gyfer Tai Fforddiadwy yn ffurfiol.

O dan Gylchlythyr 2007, roedd yn ofynnol i sefydliadau GIG Cymru gyflwyno safleoedd dros ben addas i'w hystyried ar gyfer datblygu tai fforddiadwy. Fodd bynnag, roedd cyhoeddi diweddariad o'r Protocol Cydleoli Ystadau a Throsglwyddo Tir ym mis Tachwedd 2020 yn golygu bod sefydliadau GIG Cymru yn dyblygu gweithdrefnau trwy gyflwyno safleoedd dros ben o dan Brotocol Tai Fforddiadwy GIG Cymru a hefyd cofrestru'r un safle ar ePIMS o dan y Protocol Trosglwyddo Tir.

Er mwyn osgoi'r dyblygu hwn, dirymwyd Protocol Tai Fforddiadwy GIG Cymru a bydd PCGC – Gwasanaethau Ystadau Arbenigol (SES) yn parhau i gofrestru safleoedd GIG Cymru dros ben ar ePIMS ar ran Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau fel yr argymhellwyd gan y Protocol Cydleoli Ystadau a Throsglwyddo Tir.

Mae gan Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai fynediad at ePIMS a gallant barhau i gofrestru eu diddordeb mewn safleoedd dros ben (ar gyfer tai fforddiadwy neu at ddibenion eraill) trwy Wasanaethau Ystadau Arbenigol (SES) er mwyn sicrhau blaenoriaeth neu statws prynwr a ffefrir.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Clive Ball, Pennaeth Eiddo, ar 029 2090 4106 neu e-bostiwch Clive.Ball@wales.nhs.uk.

Yr eiddoch yn gywir,

**NH Davies BSc (Anrh), Dip Proj Man (RICS), MBA, MCIOB, FIHEEM**

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ystadau Arbenigol**

**Gwasanaethau Ystadau Arbenigol PCGC, Trydydd Llawr, Tŷ’r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UB**

GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
Shared Services Partnership
Specialist Estates Services

# Specialist Estates Services Notification 21/17

## 17 September 2021

**For action by:**
Estates/Facilities Directors and Managers, NHS Health Boards and Trusts
Directors of Planning and Strategy, NHS Health Boards and Trusts

**For information only:**
Chief Executives, NHS Health Boards and Trusts

Copy to:
Head of Capital, Estates and Facilities, Department of Health and Social Care, Welsh Government

Dear Colleague

## WITHDRAWAL OF NHS WALES AFFORDABLE HOUSING PROTOCOL

Please note that the recently issued Welsh Health Circular (WHC 2021/018 dated September 2021) formally withdrew WHC (2007) 088 – Provision of NHS Land for Affordable Housing.

Under the 2007 Circular, NHS Wales organisations were required to submit suitable surplus sites for consideration for the development of affordable housing. However, the publication of an updated Estate Co-location & Land Transfer Protocol in November 2020 meant that NHS Wales organisations were duplicating procedures by submitting surplus sites under the NHS Wales Affordable Housing Protocol and also registering the same site on ePIMS under the Land Transfer Protocol.

To avoid this duplication, the NHS Wales Affordable Housing Protocol has been withdrawn and NWSSP – Specialist Estates Services (SES) will continue to register surplus NHS Wales sites on ePIMS on behalf of Health Boards and Trusts as recommended by the Estates Co-location & Land Transfer Protocol.

Local Authorities and Housing Associations have access to ePIMS and can continue to register their interest in surplus sites (for affordable housing or other uses) with SES in order to achieve priority or preferred purchaser status.

Should you require further information or have any queries please contact Clive Ball, Head of Property on 029 2090 4106 or e-mail Clive.Ball@wales.nhs.uk

Yours sincerely,

NH Davies

**NH Davies BSc (Hons), Dip Proj Man (RICS), MBA, MCIOB, FIHEEM**

**Director Specialist Estates Services**

**NWSSP Specialist Estates Services, 3rd Floor, Companies House, Crown Way, Cardiff CF14 3UB**